# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-garth Rhifyn yr Hydref 2011

**Rhodri'n adrodd hanes y**

## Beiclehem

Wedi cyhoeddi o Sul i Sul ers wythnosau am y daith feics noddedig er budd ein helusen leol, Yr Ystafell Fyw, profiad tra gwahanol oedd cyrraedd Sul y beicio.
'Roedd y ddau ohonom, Alwyn a minnau, yn dawel ein meddyliau ond yn berwi o'n mewn, pan gyrhaeddod Delwyn Sion i'n cyrchu tuag at Aberhonddu.
'Roedd pethau'n saith gwaeth pan adawodd hwnnw ni wrth y gyrchfan lle 'roeddem i gwrdd a gweddill y beicwyr, a ninnau'n gwybod bryd hynny mai pedlo neu'r Traws Cambria fyddai ein hunig ffordd adra. A doedd y Traws Cambria ddim yn rhedeg ar y Sul arbennig yma!
Am chwe munud wedi naw y bore i ffwrdd a ni, pump ohonom i fod, ond dau o hyd ar ôl yn y gwesty yn gwylio ffeinal Cwpan y Byd!
Ar lan y gamlas, ar hyd hen dramffordd, trwy'r goedwig, o amgylch llynnoedd, i fyny elltydd, dros draphont, ar rwbel a tharmac, gydag ambell i ysbaid i gael swig o ddwr neu lwcosed a brathiad o'r Mars bar fyddai'n gynhaliaeth am hanner can milltir a mwy.
Byddai wedi bod lot yn haws mynd i'r oedfa, hyd yn oed os y byddai'r bregeth yn ail neu drydydd pobiad!
'Roedd y coesau'n tynnu, yr anadl yn prinhau, a'r meddwl ar chwal wrth i ni gyrraedd Yr Ystafell Fyw yn Heol Richmond ychydig wedi pump o'r gloch yr hwyr, ond dyna wefr i ni i gyd oedd cael criw o deulu a ffrindiau yn ein croesawu adref wedi'r sialens a'r her.
Diolch i deulu Bethlehem am ein noddi a diolch i griw'r Ystafell Fyw am sicrhau lluniaeth i deithwyr blin ar ddiwedd y daith.
Dymunwn yn dda i Wynford a'i staff tra'n camu o nerth i nerth gyda'r fenter arbennig yma a gobeithiwn y bydd cyfraniad Bethlehem o fudd ac o gymorth i gynnal ei weledigaeth am flynyddoedd i ddod.



**Rhodri ac Alwyn Harding ynghyd â'r "A-team" – Ann ac Angharad - ar ben y daith .**



*(ar y chwith) Wedi oedfa fore Sul ym Methlehem, cyfarfu dau oedd yn ddiarth i'w gilydd, Rhys a Colin, a darganfod eu bod wedi bod yn cefnogi'r un fenter. Rhys Powys, cyfarwyddwr arobryn hysbyseb newydd Stafell Fyw Caerdydd yn cyfarfod Colin Macdonald, cyfrifydd ac aelod o dim ymgynghori polisi Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, prif noddwr y ganolfan adfer newydd. Colin oedd un o'r siaradwyr gwadd yn ystod agoriad swyddogol Stafell Fyw Caerdydd ar nos Iau'r 8fed o Fedi. Gallwch wylio campwaith Rhys ar* ***www.thelivingroom-cardiff.com*** *ac yn y sinemau'n fuan hefyd, gobeithio. Dau wron o ddwy wlad wahanol (daw Colin o'r Alban) ac o ddau gefndir gwahanol ond yn gweithio tuag at wireddu'r un nod, sef sefydlu'r ganolfan adfer newydd, Stafell Fyw Caerdydd - elusen leol y flwyddyn ym Methlehem.*



## Drama Nadolig
## plant ac oedolion Bethlehem

**Dydd Sul 18 Rhagfyr**

**Ymarfer llawn bore dydd Sul 11 Rhagfyr**
**10.30 i 13.00.**

**A wnewch chi sicrhau bod y plant yn dod i'r Ysgol Sul bob dydd Sul o hyn ymlaen os yn bosib? Croesewir gwirfoddolwyr o blith yr oedolion i gymryd rhan yn ogystal. Cysylltwch â Heulwen Jones.**

### Bethlehem ac Arddangosfa Pentyrch

Os oes ganddoch chi ddiddordeb mewn gweld hanesion am y plwyf lle saif ein capel, mae sawl cyfeiriad at Fethlehem mewn arddangosfa barhaol sydd newydd agor yng Nghanolfan Ymwelwyr Cyngor Cymuned Pentyrch [Gorsaf yr Heddlu, 1 Heol Penuel, CF15 9LJ0]. Ceir adrannau sy'n crynhoi hanes addoli, ffermio, mwyngloddio a thraddodiadau'r fro ac y mae yno lun o gwmni drama "Asgre Lân" (R. G. Berry) gan mlynedd yn ôl a lluniau o addoldai'r ardal.
Mae'r arddangosfa ar agor yn ddyddiol rhwng 9.30 a 11.30 y bore (Llun – Gwener).

## Oedfaon y Nadolig

**Rhagfyr 4**

***Dyffryn Ffrwd***

***10.30***

***Naw llith a charol***

***5.00 y pnawn***

Gwin Sbeis / paned a mins pei
yn y festri



**Rhagfyr 11**

***Bore** - Ymarferion y Ysgol Sul*

***Pnawn – Oedfa Gymun***

***Y Gweinidog am 5.00***

**Yna – Canu Carolau yn y pentref**



**Rhagfyr 18**

***Drama Nadolig y Plant***

***10.30***



**Rhagfyr 25**

**Oedfa Bore Nadolig**

**Y Gweinidog**

**am 10.00**



**Cofiwch hefyd am Y Plygain – Ionawr 8 am 4.30 y pnawn**

## Suliau 2012

**IONAWR**

1. Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
8. Y Parchg. R.Alun Evans
15. Y Parchg. Lona Roberts
22. Y Parchg. R. Alun Evans
29. Y Parchg. Aled Edwards

**CHWEFROR**

5. Y Parchg. Gareth Reynolds
12. Y Parchg. R. Alun Evans
19. Gwasanaeth dan ofal Dr Ian Huws
26. Y Parchg. R. Alun Evans

**MAWRTH**

4. Gwasanaeth Gwyl Ddewi
11. Y Parchg. R. Alun Evans
18. Gwasanaeth Ardal - Gorllewin Caerdydd
25. Y Parchg. R. Alun Evans

# *Newyddion*

- Llongyfarchiadau i **Llyr Wilson Price**, **Gwaelod-y-garth**, sydd yn treulio cyfnod yng Nghanada, fel rhan o'i gwrs Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, Rydym yn dymuno'n dda iddo, mae'n debyg ei fod wedi setlo'n dda yno.
- Llongyfarchiadau hefyd i **Martin Huws, Ffynnon Taf,** am ennill ar ei gerdd "Fflamau" yn Eisteddfod y Cymoedd yn Ystrad Mynach. Cafodd gryn glod gan neb llai na'r Archdderwydd ei hunan, Y Prifardd T. James Jones, a gyfeiriodd yn ei feirniadaeth at y gwaith fel cerdd 'llawn o ddelweddau cynnil'.
- Bydd gan **Catrin Dafydd, Gwaelod-y-garth**, lyfr i blant allan cyn y Nadolig. Enw'r gyfrol ydy – Cyfrinach Castell Coch.
- Mae Radio Cymru wedi clywed nifer o leisiau'r aelodau yn ddiweddar. Bu **Marian a John Ifans** yn cynnal Oedfa'r Bore yng nghwmni R. Alun, bu **Rhodri Gwynn Jones** ar "Dal i gredu" gyda Maldwyn Thomas ac R Alun yn hel atgofion am ddyddiau cynnar cynhyrchu "Dechrau Canu Dechrau Canmol". Ac, i goroni'r cyfan, erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos, bydd un rhifyn o **Ganiadaeth y Cysegr** wedi ei ddarlledu o'r Gymanfa Ganu recordiwyd yn gynharach eleni.
- **I ddyddiadur 2012** – **Mawrth 4:** Gwasanaeth Gwyl Dewi â chawl a phice yn y festri. **Gorffennaf 15:** Swper Haf. Ymhlith y gweithgareddau eraill sydd yn yr arfaeth gan y Gweithgor Ymarferol mae yna gyngerdd (Mis Mai) gyda Gwyneth Glyn a phlant yr ysgol. Hefyd, bore coffi, gyrfa chwist a gwerthiant "moes a phryn".
- Da gweld fod **Llew Jones, Llantrisant,** yn gwella ar ôl torri pont ei ysgwydd. Er gwaetha'i anaf, llwyddodd i ddarllen yr emyn plant mewn oedfa fore Sul. Hefyd ein trysorydd, **Peredur**, ar ôl helynt y wiwer, y beic a'r labradôr!

## Colli David Lewis, Pentyrch

*Rydyn ni'n cydymdeimlo'r ddiffuant iawn â theulu o'n cydaelodau, Gwyneth Lewis, Owen, Sara, ac Anwen, Lon y Fro, Pentyrch, ar golli priod a thad. Bu angladd y diweddar **David Lewis**, yn Eglwys Sant Catwg ym Mhentyrch, ble roedd wedi bod yn weithgar fel aelod a warden eglwysig, ac yn amlosgfa Glyn-taf. Ynghyd ag offeiriades y plwyf, bu'r gweinidog yn gwasnaethu yn y ddau wasanaeth.*

*Talwyd teyrnged annwyl a didwyll i David gan ei gyfnither ac y mae atgofion gan bawb amdano fel cymeriad hoffus, gweithgar ac amryddawn oedd wedi ei fagu yn Nhreganna ac wedi dilyn gyrfa fel Swyddog Iechyd yr Amgylchedd hyd ei ymddeoliad. Er iddo gael sawl pwl o waeledd a thriniaethau ac iddo fod yn bur wael dros y misoedd olaf, fe wynebodd ei salwch gyda gwên a hiwmor direidus. Cyn hynny, roedd yn wyneb cyfarwydd o gwmpas y gymdogaeth wrth iddo gerdded Henri'r ci, gan oedi am sgwrs ag unrhyw un a ddeuai ar eu traws. Roedd yn weithgar iawn mewn nifer o feysydd gyda diddordeb ymarferol yn yr eglwys, y clwb rygbi a neuadd y pentref, lle bu'n ofalwr gwirfoddol am beth amser. 'Roedd yn falch iawn o'i deulu – ei wraig Gwyneth, Owen ei fab , a'i ferched Sara ac Anwen. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu, ac fe erys cofion da am 'Dave' yn ein plith.*

*Ar yr un pryd, rydyn ni'n llawenhau o glywed y newydd a ddaeth i aelwyd Gwyneth fod Sara wedi dyweddïo ag Aled Davies o ardal Tonteg. Llongyfarchiadau i'r ddau.*

## Derbyn Caryl



Caryl Griffiths, Creigiau, yn cael ei derbyn yn gyflawn aelod gan y gweinidog ym mis Medi. Mae Caryl bellach yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta, Ystrad Mynach.

### Bedyddio dau gefnder



Dyma nhw – dau gefnder bach fedyddiwyd ar yr un bore Sul - 25 Medi. Uchod, Jac Miles Crosse, mab i Sara ac Ed, ac isod, Wiliam Aneurin Meade Owen, mab Catrin a Stephen. Mae mamau'r ddau fach yn ddwy chwaer ac yn wreiddiol o Creigiau – y ddwy hefyd yn aelodau o blith plant eglwys Bethlehem.



## Mis o fedyddiadau

Dichon y byddai Alun yn gallu honni fod pob mis yn fis prysur i weinidog, ond nid yn aml y cawn ni gofnodi clwstwr o wasanaethau bedydd, i gyd o fewn ychydig o wythosau i'w gilydd! (A'r pedair mam yn bedair faged fel plant yr eglwys). Dyma nhw i chi – prawf o foreau Sul prysur y bugail – yn ogystal â derbyn un o blant yr eglwys yn gyflawn aelod - Caryl Griffiths o'r Creigiau.

### Bedydd Bobi



Bobi Ellis Baines, mab Rwth a Stuart, yn ystod ei wasanaeth bedydd ar Hydref 9. Mae Rwth, o'r Creigiau'n wreiddiol, ac yn un arall o blith yr aelodau sydd wedi ei magu ym Methelehem.

### Bedydd Enfys



A dyma Enfys Rose Biggs, merch Branwen a Paul, ar fore ei bedydd hithau – dydd Sul Hydref 23. Un o Georgetown, Gwaelod-y-garth, yw ei mam, Branwen, - hithau hefyd wedi ei magu fel aelod ym Methlehem.


**Cyfeiriadau:**

**Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,**
***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39 , ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk



**Bore Sul Diolchgarwch**

*(Uchod)* Aelodau'r Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yn yr oedfa o ddiolch fore Sul, Hydref 16. Diolch i Heulwen am drefnu – ac i'r oedolion fu'n cyfrannu eu hatgofion am oedfoan o'r ganrif ddiwethaf – Eirlys, Nia, Rhodri, Margaret ac Ifan.

*(ar y dde)*

***Cyfarfod Cynta'r Tymor o'r Cwrdd Merched***

Sara Gibson (gynt o Radyr, bellach o Bontcanna) fu'n annerch cyfarfod cyntaf tymor yr hydref o'r Cwrdd Merched. "Brethyn Cartref" – Cath Edwards, Judith Evans a Margaret Roberts yn son am lyfrau, gafwyd yn yr ail gyfarfod (A nodyn i'r gwrywod – mae croeso iddyn nhw hefyd fynychu'r cyfarfodydd!)



**R Alun biau'r gair ola!**

# *Tri Myfyrdod*

Cyn y daw'r tri gŵr doeth i'r golwg dyma dri myfyrdod wrth baratoi at y Nadolig:

**Myfyrdod** Fe all y pwerus symud y di-bŵer fel y mynn: Joseff a Mair i Fethlehem; anghyfleus, peryglus, ond rhaid ufuddhau i orchymynion.

Mae'r byd yn llawn o symud poblogaeth bellach, a pheth peryglus yw hi i'r di-bŵer anwybyddu'r pwerus. Fe'i cafodd Iesu ei hun yn y sefyllfa honno.

**Myfyrdod** Pobl ysgymun oedd y bugeiliaid. Roedd eu gwaith yn galed a brwnt; oriau hirion a dim parch. Mae llawer heddiw, gan gynnwys plant, a chanddynt waith caled a brwnt, heb barch na statws.

Un cam i ffwrdd o fod yn bobl ddiwerth yw'r rhai a ddibrisir yng ngolwg y dilornus.

**Myfyrdod** Mam, tad, plentyn sy'n ffoi i wlad estron rhag perygl ac angau tebygol. Yn chwilio am loches, felly'n ceisio nodded. Yn chwilio am ddiogelwch, felly'n ffoaduriaid. Stori barhaus y mae Duw yn rhan allweddol ohoni.

Gweddi - **Dad Trugarog, mae llinell fylchiog fratiog dy blant yn dal i gyrraedd. Wedi eu herlid a'u hymlid ar y ffordd i hafan ddiogel. Maddau'r gwendidau sy'n caniatáu i'r fath ofnau fodoli. Maddau'r distawrwydd nad yw'n codi llais dros gyfiawnder. Fe ddychwelodd Iesu'r plentyn adre mhen amser; boed i'r dydd wawrio pan fydd llywodraethwyr newydd ar y gwledydd gorthrymedig, a boed iddynt hwythau fedru dychwelyd i gartrefi diogel a chyfiawn.**